# STRATEGAETH LLEIHAU TANAU BWRIADOL YNG NGHYMRU

"Cadw Cymru'n Wyrdd"

South Wales Fire and Rescue Service
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Service

WLGA • CLILC

Met Office

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

National Probation Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **RHAGAIR** | **3** |
| **CYFLWYNIAD** | **4** |
| Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru | 4 |
| Y Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol | 4 |
| Y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol | 5 |
| **BETH YDYM NI AM EI GYFLAWNI?** | **6** |
| Ein Gweledigaeth | 7 |
| Ein Cenhadaeth | 7 |
| Ein Blaenoriaethau Strategol | 7 |
| **PAM Y MAE AR GYMRU ANGEN STRATEGAETH LLEIHAU TANAU BWRIADOL? 8** | |
| Graddfa'r Broblem | 8 |
| Cost Tanau Bwriadol yng Nghymru | 8 |
| Ein Sbardunau Gwleidyddol | 9 |
| **SUT YR YDYM AM FYND ATI?** | **10** |
| Atal | 10 |
| Gwarchod | 10 |
| Ymateb | 10 |
| **SUT BETH FYDD LLWYDDIANT?** | **11** |
| **ATODIAD 1** | **12** |
| Cynllun Cyflawni Cyd-grŵp Tanau Bwriadol Cymru Gyfan ar gyfer 2015 | 12 |
| Blaenoriaeth 1: Rhannu Gwybodaeth Ystyrlon a Chyson | 13 |
| Blaenoriaeth 2: Gwarchod Ein Cymunedau | 14 |
| Blaenoriaeth 3: Addysgu Ein Cymunedau, yn Hen ac Ifanc | 15 |
| Blaenoriaeth 4: Parhau â'n Cenhadaeth yn yr Hinsawdd Ariannol Bresennol | 16 |
| Blaenoriaeth 5: Gwneud Gwahaniaeth Lle mae'n Cyfrif | 17 |
| Blaenoriaeth 6: Gwerthuso | 18 |
| Blaenoriaeth 7: Marchnata Ein Gwaith a Chyfathrebu â'n Cymunedau | 19 |
| Blaenoriaeth 8: Gwella'r Gwaith o Reoli Tir ar Hyd a Lled Cymru | 20 |




JR0112

# RHAGAIR



Rwy'n falch o allu cyflwyno'r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru (Cadw Cymru'n Wyrdd) a'n gweledigaeth ar gyfer cael gwared â thanau bwriadol ar hyd a lled Cymru.

Yn ystod y degawd diwethaf, rydym wedi cael llwyddiant sylweddol o ran lleihau nifer yr achosion o danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol yn ein cymunedau, ynghyd â'u heffaith. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod yna fwy y gallwn ei gyflawni.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd gweithio'n agos gyda'n partneriaid, ac mae ein llwyddiant yn y gorffennol yn ganlyniad uniongyrchol i waith caled, arloesedd a chymhelliant ein Cyd-grŵp Tanau Bwriadol, ynghyd â'r ymarferwyr ymroddgar o'r holl asiantaethau sydd wedi bod wrthi'n cyflwyno mentrau yn ein cymunedau. Rwyf o'r farn mai 'nawr yw'r adeg iawn ar gyfer strategaeth newydd. Strategaeth a fydd yn helpu i ailganolbwyntio ymdrechion yn yr ardal hon, ac i ehangu cyfrifoldeb cymunedau am weithgarwch i leihau tanau bwriadol yng Nghymru.

Rwyf hefyd o'r farn y bydd ffurfio'r Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol i ddarparu arweinyddiaeth strategol yn ystod cyfnod ariannol heriol, a mwy o risg gymunedol, yn ein helpu i barhau i ddatblygu'r llwyddiannau yr ydym eisoes wedi'u cyflawni.

Rwy'n falch bod ein strategaeth newydd yn cefnogi ac yn cyflenwi'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i bod hefyd yn adlewyrchu'r disgwyliadau a osodir ar y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn ei dogfen, Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Byddwch yn gweld bod ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau strategol yn gofyn am newid diwylliannol ar hyd a lled Cymru, fel bod tanau bwriadol yn cael eu hystyried yn annerbyniol yn gymdeithasol gan ein holl gymunedau. Bydd ein gweithredoedd yn anelu at gefnogi'r newid diwylliannol cadarnhaol a pharhaus hwn er mwyn creu Cymru lle rydym oll eisiau byw, 'nawr ac yn y dyfodol.

**Y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Mick Crennell**

Cadeirydd y Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol

# CYFLWYNIAD

Mae'r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru yn amlinellu ein dull o sicrhau gostyngiad parhaus yn nifer yr achosion o danau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol ar hyd a lled Cymru, ynghyd â'u heffaith. Fe'i datblygwyd gan y Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol, a chaiff ei rhoi ar waith gan y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol.

## Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru

Cafodd ein 'Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol' gyntaf (WARS) ei llunio yn 2007 i fod yn ganolbwynt go iawn ar gyfer sefydliadau ac unigolion a oedd yn gweithio ym maes lleihau tanau bwriadol. Diweddarwyd y strategaeth gennym yn 2012 (WARS II) i adlewyrchu'r newid yn natur tanau bwriadol yng Nghymru, ac i adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd gennym eisoes.

Rydym wedi cael llwyddiant sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, ac rydym wedi gweld nifer y tanau bwriadol ar hyd a lled Cymru yn disgyn o tua 20,000 yn 2006 i tua 6,500 yn 2014. Rydym yn falch iawn o'r hyn sydd wedi'i gyflawni trwy gryn benderfyniad a gwaith caled yr holl asiantaethau a gymerodd ran.

Fodd bynnag, er gwaethaf ein llwyddiant yn y gorffennol, mae tanau bwriadol ar hyd a lled Cymru yn parhau i fod yn berygl amlwg i'n hamgylchedd, ein heconomi a'n cymunedau. Rydym 'nawr o'r farn ei bod yn amser datblygu ein strategaeth ymhellach, ac rydym wedi llunio trydedd genhedlaeth ein Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru, (Cadw Cymru'n Wyrdd).

Mae ein strategaeth newydd yn datblygu'r wybodaeth a'r profiad rydym wedi eu hennill yn ystod y degawd diwethaf. Rydym yn cydnabod gwerth annog cymunedau ac unigolion i weithio gyda ni i rannu cyfrifoldeb, fel y gallwn gael gwared â thanau bwriadol yn yr ardaloedd lle rydym yn byw ac yn gweithio, ac yn yr ardaloedd rydym yn ymweld â hwy.

t



## Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol

Er mwyn parhau i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol ar draws Cymru, rydym wedi sefydlu Bwrdd Strategol ar gyfer Tanau Bwriadol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y sefydliadau canlynol;

ynghyd ag unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

Rôl ein Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol yw datblygu ein strategaeth, dyrannu'r adnoddau cywir er mwyn cynorthwyo i roi ein strategaeth ar waith, a monitro cynnydd yn erbyn ein strategaeth.

Mae ein Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol yn gweithredu ar lefel weithredol, a chaiff ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Mick Crennell. Mae'n adrodd i Lywodraeth Cymru trwy'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys a Fforwm Cymru Gydnerth, ac mae'n darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer parhau i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol ar hyd a lled Cymru, yn ogystal â'u heffaith.

## Y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol

Ffurfiwyd y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol yn wreiddiol yn 2005 i gynhyrchu'r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru gyntaf, a bu'n rhan annatod o'r gwaith o roi'r strategaeth ar waith, ac o'i llwyddiant. Mae'r grŵp yn cynnwys yr uwch-swyddogion o bob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, y pedwar Heddlu yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac asiantaethau eraill.

Mae'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol yn gyfrifol am weithredu'r cynllun cyflawni a nodir yn y Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru. Mae'r cynllun cyflawni yn amlinellu'r camau gweithredu penodol a fydd, yn ein barn ni, yn lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn ein cymunedau, yn ogystal â'u heffaith. Mae'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol yn adrodd am ei berfformiad yn erbyn y cynllun cyflawni yn uniongyrchol i'r Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol.

Mae cynllun cyflawni'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol i'w weld yn *atodiad 1.*

# BETH YDYM NI AM EI GYFLAWNI?

## Ein Gweledigaeth

Cael gwared â thanau bwriadol ar hyd a lled Cymru.

## Ein Cenhadaeth

Lleihau effaith tanau bwriadol ar hyd a lled Cymru trwy leihau nifer y tanau bwriadol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Ein Blaenoriaethau Strategol

**Blaenoriaeth 1: Rhannu gwybodaeth ystyrlon a chyson**

Rydym yn cydnabod bod lleihau tanau bwriadol yn barhaus yn gofyn am ddull cydweithredol o weithio rhwng yr holl bartneriaid a'n cymunedau. Os am fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol, rhaid i ni sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyflwyno gwybodaeth gyson a chywir ynghylch maint a graddau tanau bwriadol ledled Cymru, er mwyn llywio ein hymateb.

**Blaenoriaeth 2:  Gwarchod ein cymunedau**

Rydym wedi gweld bod tanau bwriadol nid yn unig yn dinistrio cartrefi a bywydau, ond eu bod hefyd yn gallu distrywio'r amgylchedd o'n cwmpas. Mae lleihau tanau bwriadol yn helpu i warchod ansawdd a ffyniant y lleoedd lle rydym yn byw, yn gweithio, yn dysgu, ac yn treulio ein hamser hamdden. Mae'n rhaid i ni weithio gyda gwirfoddolwyr, cymunedau a grwpiau ar hyd a lled Cymru, i'w helpu i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn eu cymunedau eu hunain, yn ogystal â'u heffaith. Mae arnom eisiau gwarchod ein cymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnau tanau, er enghraifft tipio anghyfreithlon, llosgi gwastraff a fandaliaeth mewn ysgolion a cholegau. Mae arnom eisiau cyflwyno newid diwylliannol ledled Cymru, fel bod cymunedau yn ystyried tanau bwriadol yn annerbyniol yn gymdeithasol, a'u bod yn weithredol o ran cydnerthu cymunedol.

**Blaenoriaeth 3: Addysgu ein cymunedau, yn hen ac ifanc**

Gwyddom y gall plant, pobl ifanc a'r genhedlaeth hŷn gael eu tynnu i mewn i gynnau tanau bwriadol am nifer o resymau gwahanol. I newid hyn, rhaid i ni ymgysylltu â hwy er mwyn deall yr hyn sy'n eu cymell, a rhaid i ni sicrhau eu bod yn deall canlyniadau eu gweithredoedd. Bydd ein hymyraethau yn cael eu cynllunio i gefnogi newid cadarnhaol, parhaus.

**Blaenoriaeth 4: Parhau â'n Cenhadaeth yn yr Hinsawdd Ariannol Bresennol**

Gwyddom fod tanau bwriadol a chynaliadwyedd economaidd yn mynd law yn llaw; gall dirywiad economaidd arwain at gynnydd yn nifer yr adeiladau gwag ac adfeiliedig, neu gynnydd yn y tir sydd heb ei reoli. Yn yr un modd, gwyddom fod yna gysylltiad annatod rhwng gwerth metel sgrap a nifer yr achosion o danau ceir bwriadol. Gall mesurau cyni arwain at leihad mewn gwasanaethau, er enghraifft rheoli gwastraff, neu leihad yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi gweithio mewn

partneriaeth. Mae'n rhaid i ni nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol y gall mesurau cyni eu cael ar ein gwaith, ac addasu ein cynllun gweithredu yn unol â hynny. Ein blaenoriaeth yw cynnal lleihad parhaus yng ngwir effaith tanau bwriadol, ac yn nifer yr achosion, hyd yn oed os yw'r risg bosibl o danau bwriadol yn cynyddu o fewn cymdeithas.

**Blaenoriaeth 5: Gwneud Gwahaniaeth Lle mae'n Cyfrif**

Rydym yn cydnabod bod arnom angen rhannu ein hadnoddau a chanolbwyntio ein gweithredoedd i gael yr effaith fwyaf posibl. Yn ogystal â'n gweithgarwch arferol, byddwn yn cydgysylltu ein camau gweithredu fel y gall pob asiantaeth gyfrannu at weithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r risg o danau bwriadol yn ein cymunedau.

**Blaenoriaeth 6: Gwerthuso**

Rydym yn cydnabod bod cynnau tanau bwriadol yn drosedd arbennig o anodd ei threchu; mae'n bosibl bod gan y cyflawnwyr gymhellion gwahanol iawn. Rhaid i ni ddeall pa rai o'n dulliau sy'n cael yr effaith orau ar leihau tanau bwriadol. Bydd gwerthuso ein camau gweithredu yn pennu sut y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i gael yr effaith fwyaf.

**Blaenoriaeth 7: Marchnata Ein Gwaith a Chyfathrebu â'n Cymunedau**

Hoffem gael strategaeth gyfathrebu ystyrlon, fel bod cymunedau yn ymwybodol o'r cymorth y gallwn ei ddarparu i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn eu hardaloedd, yn ogystal â'u heffaith.

**Blaenoriaeth 8: Gwella'r gwaith o reoli tir ar hyd a lled Cymru**

Rydym yn cydnabod bod arferion rheoli tir gwahanol yn cael effaith arwyddocaol ar faint o lystyfiant llosgadwy sy'n cronni. Mae effaith tanau gwyllt hefyd yn amrywio yn ôl yr adeg o'r flwyddyn a'r lleoliad. Yn aml, gall llosgi fod yn hunanbarhaol, ond efallai fod angen i reolwyr tir dorri'r cylch a chyflawni dulliau rheoli tir mwy cynaliadwy.



# PAM Y MAE AR GYMRU ANGEN STRATEGAETH LLEIHAU TANAU BWRIADOL?

## Maint y Broblem

Roedd yr adroddiad 'I Fyny mewn Fflamau' yn 2003 yn rhoi manylion am effaith dinistriol tanau bwriadol ar economi Cymru ac ar ein cymunedau. Erbyn hyn, mae nifer yr achosion o danau bwriadol yn sylweddol is nag yr oeddent yn 2003, ond rydym wedi gweld y niferoedd yn lefelu yn y blynyddoedd diwethaf.

Nid trwy ddamwain y cafwyd y gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau bwriadol ond, yn hytrach, trwy fwriad, a hynny o ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol, llawer o waith caled, a chydweithredu. Fodd bynnag, mae lefelau cyfredol tanau bwriadol yn dangos nad yw hyn yn amser i laesu dwylo. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi pwysau sylweddol ar fusnesau ac ar incwm personol. Mae tystiolaeth wedi dangos bod nifer yr achosion o danau bwriadol yn cynyddu yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad.

Er ein bod wedi cael cryn lwyddiant yn lleihau dros 40% o'r tanau bwriadol mewn adeiladau, a thros 60% o'r tanau cerbydau bwriadol, mae'r cynnydd diweddar yn nifer y tanau bwriadol sy'n ymwneud â glaswelltir, gwastraff, sbwriel a biniau/sgipiau yn dangos bod rhaid i ni adnewyddu ein hymrwymiad i'n dull arloesol o atal tanau bwriadol.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn profi heriau gwahanol iawn mewn perthynas â maint y tanau bwriadol y maent yn ymateb iddynt, a'r mathau ohonynt, felly roedd rhaid i ni ddatblygu strategaeth tanau bwriadol sy'n cefnogi'r gwaith o roi ymyraethau lleol priodol ar waith i fynd i'r afael â materion tanau bwriadol lleol.

## Cost Tanau Bwriadol yng Nghymru

Gallwn ddeall bod cyfrifo gwir gost tanau bwriadol yn heriol. Yn hanesyddol, mae'r cyfrifiadau wedi cynnwys costau sy'n ymwneud â phobl sydd wedi'u hanafu, difrod i eiddo, y busnes a gollir, yr ymateb brys i ddelio â'r digwyddiad, ac unrhyw gamau dilynol ar gyfer y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae yna gostau eraill sy'n gysylltiedig â thanau bwriadol – y costau hynny sy'n gysylltiedig â'r effaith ehangach ar y gymdeithas (e.e. amharu ar y seilwaith neu golli amwynder), a'r costau amgylcheddol (e.e. yr effaith ar dwristiaeth neu golli cynefin).

O ystyried pob un o'r uchod, amcangyfrifir, yn geidwadol, fod cost economaidd tanau bwriadol ar hyd a lled Cymru yn dal i fod dros £160 miliwn y flwyddyn.

Rydym yn cydnabod bod yr heriau economaidd cyfredol rydym oll yn eu hwynebu yn golygu bod cost tanau bwriadol yng Nghymru yn annerbyniol ac yn anghynaliadwy. Fodd bynnag, mae cost tanau bwriadol ledled Cymru yn fwy na chost ariannol yn unig; mae tanau bwriadol yn aml yn dinistrio bywydau, yn distrywio teuluoedd cyfan, yn dirywio ardaloedd yn ein cymunedau, yn tarfu ar ecosystemau bregus, ac yn dinistrio cynefinoedd am flynyddoedd lawer i ddod.

Gwyddom fod yr arian sy'n cael ei wario ar atal tanau bwriadol yn cynrychioli buddsoddiad cadarn ar gyfer economi Cymru. Mae tanau bwriadol mewn ysgolion ac adeiladau addysgol yn enghraifft; rydym wedi gweithio'n galed, ac wedi llwyddo i leihau nifer y tanau bwriadol mewn ysgolion ac adeiladau colegau. Yn anffodus, rydym wedi dysgu o brofiad fod effaith tân ysgol yn sylweddol, a bod yr effaith hon yn mynd ymhell y tu hwnt i gostau ailadeiladu'r ysgol.

Mae'r costau i'r gymdeithas yn cynnwys colli gwaith y plant, gwaith na ellir ei gael yn ôl, effaith aildrefnu arholiadau, adleoli disgyblion, amharu ar drefniadau teithio staff a rhieni, yn ogystal â'r aflonyddwch cymunedol. Gall atal tanau bwriadol mewn dim ond un ysgol arbed dros £10 miliwn i economi Cymru, sef y gost o adfer yr adeilad a rheoli'r effaith ddilynol ehangach ar y gymuned.

## Ein Sbardunau Gwleidyddol

Mae ein strategaeth yn ystyried nifer o ddatblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol a sefydliadol allweddol, yn cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddfwriaeth hon, sy'n torri tir newydd, yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n helpu i greu Cymru y bydd arnom ni i gyd eisiau byw ynddi, 'nawr ac yn y dyfodol. Mae ein gweledigaeth o gael gwared ar danau bwriadol ledled Cymru yn cefnogi pob un o'r saith nod llesiant a amlinellir yn y Ddeddf.

- Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn amlinellu'n glir y camau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl yng Nghymru. Mae'n cynnwys camau clir sy'n hyrwyddo byw'n iach, economi sy'n fwy ffyniannus ac arloesol, a chymunedau mwy diogel a chydlynol.

- Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru yn cyfeirio at ein gwaith o atal tanau bwriadol, ac yn amlygu'n glir bwysigrwydd cydweithio i leihau tanau bwriadol. Thema allweddol i'r fframwaith drwyddo draw yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith ymgysylltu â'r gymuned, dan arweiniad nifer o asiantaethau, yn ein strategaethau ataliol.

- Mae 'Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc' yn amlinellu agwedd y Gwasanaeth Tân ac Achub tuag at addysgu plant a phobl ifanc er mwyn lleihau nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â throseddau tân.

- O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002), mae'n ddyletswydd statudol ar bob ardal awdurdod lleol i ffurfio Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Yn nodweddiadol, mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys sefydliadau fel yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub, awdurdodau lleol, a grwpiau cymunedol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddatblygu ymhellach ein gweithgareddau atal tanau bwriadol.

- Mae'r Rheolau Llosgi Grug a Glaswellt yn anelu at ddarparu canllawiau ar gyfer llosgi tir mewn modd cyfrifol, dan reolaeth dda. Nod y Rheolau yw lleihau'r risg i eiddo, tir amaethyddol, coedwigaeth, bywyd gwyllt, a'r amgylchedd ehangach. Bydd ein strategaeth yn helpu i gefnogi arferion rheoli tir priodol, ac i leihau nifer y tanau gwyllt ledled Cymru, ynghyd â'u heffaith niweidiol.

# SUT YR YDYM AM FYND ATI?

Mae ein strategaeth ar gyfer atal tanau bwriadol yn ymgorffori ymyraethau sy'n anelu at atal y weithred o gynnau tanau bwriadol, mentrau i warchod targedau posibl rhag effeithiau tanau bwriadol, ac ymatebion brys effeithiol i ddelio â chanlyniadau tanau bwriadol. Mae'r tri maes allweddol, sef atal, gwarchod ac ymateb, yn llunio sail ein cynllun gweithredu, ac maent wedi'u cydblethu trwy bob un o'n saith blaenoriaeth strategol.

**Atal** tanau bwriadol trwy:

weithio'n agos gyda phartneriaid, ac yn y gymuned, i helpu i adeiladu cymunedau mwy diogel a mwy cydlynol; darparu gwybodaeth a chyngor targededig: addysgu plant a phobl ifanc; ymyrryd yn gynnar pan fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau; darparu gweithgareddau i ddifyrru, ac atal troseddwyr posibl.

**Gwarchod** rhag tanau bwriadol trwy:

weithio'n agos gyda phartneriaid sydd â rhan mewn cynllunio adeiladau; cydweithio â'r rheini sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr sy'n cynnau tanau bwriadol, a hynny ym mhob cam o'r system cyfiawnder troseddol; codi ymwybyddiaeth a darparu cyngor ar yr ymyraethau sydd ar gael i gymunedau; rhoi mesurau ar waith i 'galedu targedau' (gwneud adeiladau'n fwy diogel), lle bo hynny'n briodol.

**Ymateb** i danau bwriadol trwy:

sicrhau ein bod yn darparu ymateb brys effeithiol i liniaru effaith tanau bwriadol, ynghyd â gweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau ein bod yn canfod yr unigolion sy'n cynnau tanau bwriadol, a bod hynny'n arwain at gyfiawnder neu ymyrraeth briodol ar eu cyfer.

# SUT BETH FYDD LLWYDDIANT?

Rydym wedi gosod i ni'n hunain darged perfformio o leihau pob achos o gynnau tân bwriadol, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ar hyd a lled Cymru. Caiff y targed hwn ei rannu ymhellach i gategorïau gwahanol o danau er mwyn ein helpu i fesur ein cynnydd, ac i'n cynorthwyo i ddeall y risgiau y mae arnom angen mynd i'r afael â hwy.

- Lleihau nifer yr achosion o danau gwyllt 5% bob blwyddyn.
- Lleihau nifer y tanau bwriadol a gaiff eu cynnau mewn ysgolion 5% bob blwyddyn.
- Lleihau tanau cerbydau bwriadol 5% bob blwyddyn.
- Lleihau tanau bwriadol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol 5% bob blwyddyn.
- Lleihau nifer yr adeiladau gwag ac adfeiliedig sy'n darged i danau bwriadol 5% bob blwyddyn.
- Lleihau nifer o dannau gwastraff 5% bob blwyddyn.

Y canlyniad i'r gymuned fydd newid diwylliannol ledled Cymru, fel bod tanau bwriadol yn cael eu hystyried yn annerbyniol yn gymdeithasol gan ein holl gymunedau. Nod ein camau gweithredu yw cefnogi newid cadarnhaol a pharhaus a fydd, yn y pen draw, yn cael gwared â thanau bwriadol ledled Cymru.

## ATODIAD 1

# Cyd-grŵp Tanau Bwriadol Cymru Gyfan

## Cynllun Cyflawni 2015

# Blaenoriaeth 1: Rhannu Gwybodaeth Ystyrlon a Chyson

## Pam?

Rydym yn cydnabod bod lleihau tanau bwriadol yn barhaus yn gofyn am ddull cydweithredol o weithio rhwng yr holl bartneriaid a'n cymunedau. Os am fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol, rhaid i ni sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cyflwyno gwybodaeth gyson a chywir ynghylch maint a graddau tanau bwriadol ledled Cymru, er mwyn llywio ein hymateb.

## Sut?

- Cytuno ar feincnodau ar gyfer casglu'r data a ddisgwylir gan bob sefydliad partner.
- Gweithio tuag at sefydlu dull cyffredin o nodi mannau poeth – dull y bydd yr holl bartneriaid yn cydnabod ei fod yn cynrychioli 'arfer gorau' ar gyfer Cymru.
- Bod yn gwbl glir ynglŷn ag unrhyw wahaniaethau rhwng ystadegau'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn perthynas â chofnodi ac adrodd am danau a gyneuir yn fwriadol.
- Deall sut y gall unrhyw wahaniaethau o'r fath effeithio ar eu hymarfer eu hunain, ac ar y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Gofalu bod systemau ar waith i sicrhau nad yw'r gwahaniaethau hyn yn llesteirio ymdrechion pob partner i leihau tanau bwriadol.
- Codi ymwybyddiaeth trwy gyflwyno ystadegau perthnasol ar danau bwriadol mewn cyfarfodydd o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Lefel yr eglurder ymhlith partneriaid o ran y gwahaniaeth rhwng ystadegau/data'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Lefel y ddealltwriaeth ymhlith partneriaid o ran sut y gall unrhyw wahaniaethau o'r fath effeithio ar eu hymarfer eu hunain.
- Sefydlu dull cyffredin o nodi'r 'mannau poeth.'
- Y graddau y mae partneriaid yn mynd ati i gasglu data yn unol â'r dull cyffredin hwn.
- Pa mor rhwydd yw hi i bartneriaid gyrchu data ystadegol a gwybodaeth gysylltiedig arall.
- Y graddau y mae partneriaid yn rhannu data perthnasol.
- Y graddau y mae partneriaid yn defnyddio data ystadegol a gwybodaeth gysylltiedig arall i leihau tanau bwriadol.

# Blaenoriaeth 2: Gwarchod ein Cymunedau

## Pam?

Rydym wedi gweld bod tanau bwriadol nid yn unig yn dinistrio cartrefi a bywydau, ond eu bod hefyd yn gallu distrywio'r amgylchedd o'n cwmpas.  Mae lleihau tanau bwriadol yn helpu i warchod ansawdd a ffyniant y lleoedd lle rydym yn byw, yn gweithio, yn dysgu, ac yn treulio ein hamser hamdden. Mae'n rhaid i ni weithio gyda gwirfoddolwyr, cymunedau a grwpiau ar hyd a lled Cymru, i'w helpu i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn eu cymunedau eu hunain, yn ogystal â'u heffaith. Mae arnom eisiau gwarchod ein cymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnau tanau, er enghraifft tipio anghyfreithlon, llosgi gwastraff a fandaliaeth mewn ysgolion a cholegau. Mae arnom eisiau cyflwyno newid diwylliannol ledled Cymru, fel bod cymunedau yn ystyried tanau bwriadol yn annerbyniol yn gymdeithasol, a'u bod yn weithredol o ran cydnerthu cymunedol.

## Sut?

- Gweithio gyda phartneriaethau ac o fewn cymunedau i ddarparu ymyraethau priodol, targededig ac effeithiol i atal cynnau tanau bwriadol ym mhob ardal.
- Datblygu ac adolygu amrywiaeth o 'becynnau cymorth' sy'n seiliedig ar arfer da cydnabyddedig, a hynny i gefnogi ymarferwyr a phartneriaethau sy'n gweithio i leihau tanau bwriadol a gyneuir ym mhob ardal.
- Codi ymwybyddiaeth a, lle bo angen, newid agweddau o fewn cymunedau tuag at y mathau hyn o danau a gyneuir yn fwriadol
- Gweithio gyda sefydliadau partner i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag adeiladau ansefydlog, gwag ac adfeiliedig sy'n peri risg i'r gymuned ac i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Annog yr ethos o 'Ddiogelu Drwy Ddylunio' wrth ddatblygu adeiladau newydd, er enghraifft trwy gysylltu ag Awdurdodau Lleol.
- Sicrhau bod aelodau allweddol dynodedig yn yr Awdurdodau Lleol, staff ysgolion, a llywodraethwyr ysgolion yn ymwybodol o'r rôl y gallant eu chwarae o ran lleihau tanau bwriadol ar dir ac adeiladau ysgolion.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Nifer y tanau glaswellt a thanau gwyllt a gyneuir yn fwriadol.
- Nifer yr ymchwiliadau a'r erlyniadau sy'n gysylltiedig â'r weithred o gynnau tân yn fwriadol.
- Nifer yr achosion o drosedd a thanau bwriadol sy'n ymwneud â cherbydau.
- Nifer y tanau a gyneuir yn fwriadol sy'n ymwneud â gwastraff neu sbwriel.
- Nifer y tanau bwriadol ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas ag adeiladau gwag ac adfeiliedig.
- Canran yr adeiladau newydd sydd wedi eu dylunio, eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol ag egwyddorion 'Diogelu Drwy Ddylunio.'
- Nifer yr achosion o danau bwriadol mewn ysgolion.
- Nifer yr achosion o danau bwriadol mewn adeiladau annomestig.

# Blaenoriaeth 3: Addysgu Ein Cymunedau, yn Hen ac Ifanc

## Pam?

Gwyddom y gall plant, pobl ifanc a'r genhedlaeth hŷn gael eu tynnu i mewn i gynnau tanau bwriadol am nifer o resymau gwahanol. I newid hyn, rhaid i ni ymgysylltu â hwy er mwyn deall yr hyn sy'n eu cymell, a rhaid i ni sicrhau eu bod yn deall canlyniadau eu gweithredoedd. Bydd ein hymyraethau yn cael eu cynllunio i gefnogi newid cadarnhaol, parhaus.

## Sut?

- Gweithio gyda theuluoedd, ysgolion ac asiantaethau partner i nodi, ar y cyfle cyntaf, blant a phobl ifanc sy'n amlygu arwyddion o gyflawni troseddau sy'n ymwneud â thân a chynnau tân.
- Sicrhau bod ymyraethau yn cael eu teilwra'n briodol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a nodir. (Er enghraifft, mewn perthynas ag oedran, ethnigrwydd, neu allu.)
- Cynnig hyfforddiant a mentrau i blant a phobl ifanc, sy'n gwella sgiliau bywyd ac yn tynnu eu sylw oddi ar droseddau sy'n ymwneud â thân, yn ogystal ag oddi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig.
- Cymryd rhan yng ngwaith Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a mentrau eraill, i fynd i'r afael â throseddau ieuenctid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Nifer y tanau bwriadol a gyneuir gan blant a phobl ifanc.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith partneriaid ac asiantaethau o'r graddau y mae plant a phobl ifanc yn cael eu tynnu i mewn i gynnau tanau'n fwriadol.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith asiantaethau allweddol, sefydliadau a chymunedau, o'r amrywiol raglenni ac ymyraethau a werthuswyd sydd ar gael i blant a phobl ifanc.
- Pa mor rhwydd yw hi i bartneriaid gyrchu gwybodaeth berthnasol, yn cynnwys rhaglenni ac ymyraethau, wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y maes hwn.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y cyfeirir atynt yn benodol yn y Strategaeth Troseddwyr Ifanc.

# Blaenoriaeth 4: Parhau â'n Cenhadaeth yn yr Hinsawdd Ariannol Bresennol

## Pam?

Gwyddom fod tanau bwriadol a chynaliadwyedd economaidd yn mynd law yn llaw; gall dirywiad economaidd arwain at gynnydd yn nifer yr adeiladau gwag ac adfeiliedig, neu gynnydd yn y tir sydd heb ei reoli. Yn yr un modd, gwyddom fod yna gysylltiad annatod rhwng gwerth metel sgrap a nifer yr achosion o danau ceir bwriadol. Gall mesurau cyni arwain at leihad mewn gwasanaethau, er enghraifft rheoli gwastraff, neu leihad yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi gweithio mewn partneriaeth. Mae'n rhaid i ni nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol y gall mesurau cyni eu cael ar ein gwaith, ac addasu ein cynllun gweithredu yn unol â hynny. Ein blaenoriaeth yw cynnal lleihad parhaus yng ngwir effaith tanau bwriadol, ac yn nifer yr achosion, hyd yn oed os yw'r risg bosibl o danau bwriadol yn cynyddu o fewn cymdeithas.

## Sut?

- Casglu, coladu a rhannu data ac ymchwil yn y maes hwn.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar y canlyniadau y mae'n angenrheidiol i brosiectau, ymyraethau a mentrau penodol eu cyflawni er mwyn iddyn gael eu hystyried yn ddefnydd 'effeithiol' o adnoddau.
- Sicrhau bod partneriaid a rhanddeiliaid yn deall atebolrwydd perfformiad, er mwyn iddynt gyd-dderbyn y sefyllfa a rhannu'r cyfrifoldeb.
- Gweithio gyda phartneriaethau lleol i ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Addysg Lleol, asiantaethau perthnasol eraill, a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Nifer yr ymchwiliadau a'r erlyniadau sy'n gysylltiedig â'r weithred o gynnau tan yn fwriadol.
- Nifer yr achosion o drosedd a thanau bwriadol sy'n ymwneud â cherbydau.
- Nifer y tanau a gyneuir yn fwriadol sy'n ymwneud â gwastraff neu sbwriel.
- Nifer y tanau bwriadol ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas ag adeiladau gwag ac adfeiliedig.
- Canran yr adeiladu newydd sydd wedi eu dylunio, eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol ag egwyddorion 'Diogelu Drwy Ddylunio.'

# Blaenoriaeth 5: Gwneud Gwahaniaeth Lle mae'n Cyfrif

## Pam?

Rydym yn cydnabod bod arnom angen rhannu ein hadnoddau a chanolbwyntio ein gweithredoedd er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Yn ogystal â'n gweithgarwch arferol, byddwn yn cydgysylltu ein camau gweithredu fel y gall pob asiantaeth gyfrannu at weithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r risg o danau bwriadol yn ein cymunedau.

## Sut?

- Cynyddu'r cydweithredu rhwng partneriaid allweddol wrth ddatblygu a sicrhau gweithredu ar y cyd mewn perthynas ag addysg, gorfodi a gwarchod.
- Ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig y rheini a nodwyd yn rhai risg uwch, fel eu bod yn cydweithio o ran cyflenwi rhaglenni ac ymyraethau i leihau tanau bwriadol yn lleol.
- Lle bo hynny'n briodol, gwella cyfranogiad ymarferwyr tân ac achub/lleihau tanau bwriadol, i brosesau fel Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), a datblygu prosesau asesu risg ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cynyddu lefelau'r ymgysylltu â throseddwyr a chyn-droseddwyr a fu'n cynnau tanau yn fwriadol.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Niferoedd yr achosion o danau bwriadol yn yr ardal weithredu
- Lefel cyfranogiad ymarferwyr Tân ac Achub/lleihau tanau bwriadol i MAPPA, i MARAC, ac i'r gwaith o ddatblygu prosesau asesu risg ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Lefelau aildroseddu sy'n ymwneud â thanau bwriadol.

# Blaenoriaeth 6: Gwerthuso

## Pam?

Rydym yn cydnabod bod cynnau tanau bwriadol yn drosedd arbennig o anodd ei threchu; mae'n bosibl bod gan y cyflawnwyr gymhellion gwahanol iawn. Rhaid i ni ddeall pa rai o'n dulliau sy'n cael yr effaith orau ar leihau tanau bwriadol. Bydd gwerthuso ein camau gweithredu yn pennu sut y byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau i gael yr effaith fwyaf.

## Sut?

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar y canlyniadau y mae'n angenrheidiol i brosiectau, ymyraethau a mentrau penodol eu cyflawni, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ddefnydd 'effeithiol' o adnoddau.
- Datblygu dulliau gweithredu cyffredin, cytunedig, o werthuso, a fydd yn cynnwys cyfeiriad clir o ran beth y mae angen i ni ei fesur, pam, ac i ba ddiben.
- Cefnogi'r gwaith o werthuso effeithiol trwy ddatblygu a darparu 'pecynnau cymorth' gwerthuso.
- Annog 'diwylliant o werthuso ac o arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth' ymhlith pawb sy'n ariannu a chyflawni gwaith i leihau tanau bwriadol.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Presenoldeb a defnydd/chymhwysiad effeithiol, ledled Cymru, o becynnau cymorth gwerthuso ar gyfer lleihau tanau bwriadol.
- Pob partner a rhanddeiliad yn gwerthuso eu hymyraethau mewn modd strwythuredig sy'n canolbwyntio ar y canlyniad.
- Y graddau y mae'r rhaglenni a'r ymyraethau a werthusir yn cael eu defnyddio i leihau achosion o gynnau tân yn fwriadol ledled Cymru.

# Blaenoriaeth 7: Marchnata Ein Gwaith a Chyfathrebu â'n Cymunedau

## Pam?

Hoffem gael strategaeth gyfathrebu ystyrlon, fel bod cymunedau yn ymwybodol o'r cymorth y gallwn ei ddarparu i leihau nifer yr achosion o danau bwriadol yn eu hardaloedd, yn ogystal â'u heffaith.

## Sut?

- Cynyddu cysondeb negeseuon gwybodaeth ac arferion sy'n ymwneud â thanau bwriadol, a ddarperir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub, yr Heddlu, ac asiantaethau eraill ar hyd a lled Cymru.
- Gweithio i ddatblygu negeseuon ac ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n gyson, yn effeithiol, ac sydd wedi'u cydgysylltu'n ganolog, er mwyn atal tanau bwriadol, neu er mwyn gwella'r gwaith o ganfod tanau o'r fath.
- Sicrhau cysylltiadau agosach rhwng y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol a thimau Cyfathrebu Corfforaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.
- Ymgysylltu â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o hyd a lled, a risgiau a chostau tanau bwriadol.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i'r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ar lefel gyhoeddus/gymunedol o hyd a led tanau bwriadol, a'r risgiau a'r costau i'w cymunedau.
- Lefelau ymgysylltu â'r rheini y maent yn anos eu cyrraedd trwy gyfrwng dulliau confensiynol o ddarparu gwybodaeth ac addysg, er enghraifft NEETS (y rheini nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant), ynghyd â'r lefelau o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn eu plith.
- Mesur canfyddiadau ac agweddau'r gymuned tuag at fathau gwahanol o danau a gyneuir yn fwriadol yn lleol.
- Lefelau cysondeb y negeseuon, yr wybodaeth gyhoeddus a'r ymgyrchoedd sy'n cael eu cyflenwi ledled Cymru.

# Blaenoriaeth 8: Gwella’r gwaith o reoli tir ar hyd a lled Cymru

## Pam?

Rydym yn cydnabod bod arferion rheoli tir gwahanol yn cael effaith arwyddocaol ar faint o lystyfiant llosgadwy sy’n cronni. Mae effaith tanau gwyllt hefyd yn amrywio yn ôl yr adeg o’r flwyddyn a’r lleoliad. Yn aml, gall llosgi fod yn hunanbarhaol, ond efallai fod angen i reolwyr tir dorri’r cylch a chyflawni dulliau rheoli tir mwy cynaliadwy.

## Sut?

- Gweithio gyda’r gymuned ffermio i wella ei dealltwriaeth o ganlyniadau tanau gwyllt, a meithrin y gallu i losgi dan amodau rheoledig yn unol â’r Cod Llosgi Grug a Glaswellt.
- Dysgu o arfer gorau yng Nghymru, ac mewn ardaloedd eraill, i ddeall sut i reoli llystyfiant er mwyn osgoi cronni llwythi tanwydd, ac i leihau effaith tanau gwyllt sy’n cynnau.
- Cefnogi mentrau cydweithredol i leihau croniad llystyfiant llosgadwy a gwella arferion llosgi yn yr ardaloedd hynny lle mae tanau gwyllt yn cael yr effaith fwyaf niweidiol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff sy’n cynrychioli ffermwyr a thirfeddianwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth o drefniadau Trawsgydymffurfio, ar gyfer taliadau amaethyddol, mewn perthynas â thorri’r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt a’r cod llosgi.
- Datblygu systemau i alluogi’r Heddlu i nodi’n gyflym berchenogion tir, er mwyn ymchwilio’n effeithiol i achosion o losgi afreoledig.

## Mesur Gwelliant:

Byddwn yn defnyddio dangosyddion tebyg i’r rhai canlynol i fesur cynnydd:

- Arwynebedd y tir o dan dechnegau rheoli ‘newydd.’
- Canllawiau ymarferol ar gael o ran technegau i leihau croniant llystyfiant, a sut i leihau’r risgiau/effeithiau mewn ardaloedd sydd mewn perygl, (e.e. breciau rhag tân).
- Nifer yr achosion o ‘losgi dan amodau rheoledig’ afreolus.
- Nifer y tanau sy’n cael eu cynnau yn fwriadol ar dir agored.
- Systemau Trawsgydymffurfio ar waith i fynd i’r afael ag achosion o dorri’r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt.
- Gweithdrefn ar waith er mwyn i’r Heddlu nodi perchenogion tir.



# STRATEGAETH LLEIHAU TANAU BWRIADOL YNG NGHYMRU

"Keeping Wales Green"